# Deddf Senedd ac Etholiadau (Cymru) 2020

**2020 dccc 1**

## RHAN 6

CYFFREDINOL

### 41 Dehongliad cyffredinol

Yn y Ddeddf hon—

ystyr "Deddf 1983" ("*1983 Act*") yw Deddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983 (p. 2);

ystyr "Deddf 2006" ("*2006 Act*") yw Deddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32);

ystyr "deddfiad" ("*enactment*") yw deddfiad pa bryd bynnag y'i deddfir neu y'i gwneir;

ystyr "Gorchymyn 2007" ("*2007 Order*") yw Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cynrychiolaeth y Bobl) 2007 (O.S. 2007/236);

ystyr "Rheoliadau 2001" ("*2001 Regulations*") yw Rheoliadau Cynrychiolaeth y Bobl (Cymru a Lloegr) 2001 (O.S. 2001/341);

ystyr "Senedd" yw Senedd Cymru;

ystyr "swyddog cofrestru" ("*registration officer*") yw swyddog cofrestru a benodir gan awdurdod lleol o dan adran 8(2A) o Ddeddf 1983.